

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
14/03/2007

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys
Contents

Error! Bookmark not defined.

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid
Questions to the Finance Minister

1

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

3

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid
Questions to the Finance Minister

Cyllid Ychwanegol
Additional Funding

Q9 Lynne Neagle: What representations has the Minister received regarding additional funding for the education and lifelong learning portfolio for 2006-07?
OAQ0812(FIN)

C9 Lynne Neagle: Pa sylwadau mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynglŷn â chyllid ychwanegol ar gyfer portffolio addysg a dysgu gydol oes yn 2006-07?
OAQ0812(FIN)

The Finance Minister (Sue Essex): I have discussed a range of budgetary issues with the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills. I have also taken into consideration the views of the Education, Lifelong Learning and Skills Committee and members of the opposition parties.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Yr wyf wedi trafod ystod o faterion yn ymwneud â'r gyllideb gyda'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Yr wyf hefyd wedi ystyried safbwyntiau'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac aelodau'r gwrthbleidiau.

Cyllideb Gyffredinol
Overall Budget

Q10 John Griffiths: Will the Minister make a statement on the overall budget provision for enterprise, innovation and networks in 2007-08? OAQ0813(FIN)

C10 John Griffiths: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb gyffredinol a ddarperir ar gyfer y portffolio menter, arloesi a rhwydweithiau yn 2007-08?
OAQ0813(FIN)

Sue Essex: The EIN budget will be £1.1 billion in 2007-08, compared with £488 million in 1999-2000. This represents an increase of 139 per cent.

Sue Essex: Bydd y gyllideb menter, arloesi a rhwydweithiau yn £1.1 biliwn yn 2007-08, o'i gymharu â £488 million yn 1999-2000. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 139 y cant.

Setliad Refeniw Revenue Settlement

Q11 Owen John Thomas: What consideration did the Minister give to the local government revenue settlement in determining the overall budget allocation to the local government and public services portfolio? OAQ0800(FIN)

Sue Essex: I gave the local government revenue settlement very careful consideration, including the report of the expenditure sub-group, when determining the local government and public services portfolio budget.

C11 Owen John Thomas: Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i'r setliad refeniw i lywodraeth leol wrth bennu'r gyllideb gyffredinol a ddyrannwyd i bortffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus? OAQ0800(FIN)

Sue Essex: Ystyriais setliad refeniw llywodraeth leol yn ofalus iawn, gan gynnwys adroddiad yr is-grŵp gwariant, wrth bennu cyllideb portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cymdeithasol.

Cynlluniau Cyllido Tair Blynedd Three-year Funding Plans

Q12 Owen John Thomas: What consideration did the Minister give to the Welsh Assembly Government's three-year funding plans for local authorities in determining the overall budget allocation to the local government and public services portfolio? OAQ0799(FIN)

Sue Essex: I am committed to establishing three-year funding settlements for local government. I aim to do that as part of this year's planning round alongside the outcome of the comprehensive spending review.

C12 Owen John Thomas: Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i gynlluniau cyllid tair blynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer awdurdodau lleol wrth bennu'r gyllideb gyffredinol a ddyrannwyd i bortffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus? OAQ0799(FIN)

Sue Essex: Yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau setliad cyllido tair blynedd ar gyfer llywodraeth leol. Bwriadaf wneud hynny fel rhan o gylch cynllunio eleni ochr yn ochr â chanlyniad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant.

Dyrannu'r Gyllideb Allocation of Funding

Q13 Peter Black: Will the Minister make a statement on how the census affects the allocation of funding within the Assembly's budget? OAQ0793(FIN)

Sue Essex: Wales's population as a proportion of England is one of the components of the Barnett formula, which determines changes to the Assembly departmental expenditure limit. The proportion is normally calculated using National Statistics's mid-year estimates of population, which are benchmarked against census information.

C13 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut mae'r cyfrifiad yn effeithio ar ddyraniad cyllideb y Cynulliad? OAQ0793(FIN)

Sue Essex: Mae poblogaeth Cymru fel cyfran o boblogaeth Lloegr yn un o elfennau fformiwla Barnett, sy'n penderfynu'r newidiadau i derfynau gwariant adrannol y Cynulliad. Fel arfer, cyfrifir y gyfran drwy ddefnyddio amcangyfrifon canol blwyddyn Ystadegau Gwladol o'r boblogaeth, a osodir ochr yn ochr â gwybodaeth o'r cyfrifiad.

Cyllideb Gyffredinol Overall Budget

Q14 John Griffiths: What were the Welsh Assembly Government's priorities in determining the overall budget provision for the culture, Welsh language and sport portfolio for 2006-07? OAQ0814(FIN)

C14 John Griffiths: Beth oedd blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth bennu'r gyllideb gyffredinol i'w darparu ar gyfer portffolio diwylliant, y Gymraeg a chwaraeon ar gyfer 2006-07? OAQ0814(FIN)

Sue Essex: In preparing my draft and final budgets, I took account of the strategic commitments set out in 'Wales: A Better Country'.

Sue Essex: Wrth baratoi fy nghyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol, ystyriais yr ymrwymadau strategol a nodir yn 'Cymru: Gwlad Well'.

Lledaenu Swyddi'r Cynulliad The Dispersal of Assembly Jobs

Q15 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on the dispersal of Assembly jobs into Ceredigion? OAQ0806(FIN)

C15 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ledaenu swyddi'r Cynulliad i Geredigion? OAQ0806(FIN)

Sue Essex: We will create an office in Aberystwyth, bringing together a number of smaller offices from within the region, in addition to posts transferring from Cardiff. The main functions transferring will be from the Department for Environment, Planning and Countryside and related functions. The office will support some 535 staff.

Sue Essex: Byddwn yn creu swyddfa yn Aberystwyth, gan ddwyn ynghyd nifer o swyddfeydd bychan o fewn y rhanbarth, sy'n ychwanegol at y swyddi a drosglwyddir o Gaerdydd. Daw'r prif swyddogaethau a drosglwyddir o Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad a swyddogaethau cysylltiedig. Bydd tua 535 o staff yn gweithio yn y swyddfa.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

Gwarchod Bioamrywiaeth Protecting Biodiversity

Q14 Brynle Williams: Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government priorities for protecting biodiversity in north Wales? OAQ1118(EPC)

C14 Brynle Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth yn y gogledd? OAQ1118(EPC)

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): I am fully committed to the protection of biodiversity in north Wales, working with partners to support the UK biodiversity action plan. The environment strategy for Wales was launched in May 2006 and commitments were made to protect the biodiversity and historic character of our landscapes.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Yr wyf wedi ymrwymo'n llawn i ddiogelu bioamrywiaeth yng ngogledd Cymru, drwy weithio gyda phartneriaid i gynnal cynllun gweithredu bioamrywiaeth y DU. Lanswyd strategaeth amgylchedd Cymru ym mis Mai 2006 a chafwyd sawl ymrwymiad i ddiogelu bioamrywiaeth a chymeriad hanesyddol ein tirluniau.

Gwella'r Amgylchedd Improving the Environment

Q15 John Griffiths: Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government policies to further improve the environment of Wales? OAQ1125(EPC)

C15 John Griffiths: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella amgylchedd Cymru ymhellach? OAQ1125(EPC)

Carwyn Jones: We are delivering policies addressing specific environmental issues and implementing our obligations under national and international legislation. The environment strategy for Wales was published in May 2006 and it sets out the Assembly Government's long-term strategy for the Welsh environment.

Carwyn Jones: Yr ydym yn datblygu polisiau i fynd i'r afael â materion amgylcheddol penodol ac yn gweithredu ein rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth genedlaethol a rhyngwladol. Cyhoeddwyd strategaeth amgylchedd Cymru ym mis Mai 2006, sy'n nodi strategaeth hirdymor Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer amgylchedd Cymru.